Ry'n ni wedi cadw ffeiliau a elwir yn cwcis ar eich dyfais. Mae'r cwcis hyn:

- yn hanfodol i'r safle weithio

Byddem hefyd yn hoffi cadw rhai cwcis i'n helpu ni:

- i wella'n gwefan drwy gasglu ac adrodd gwybodaeth ar sut yr ydych yn defnyddio'r safle
- i deilwra cyfathrebu

Derbyn cwcis | Newid gosodiadau cwcis



CANLLAWIAU

# Canllawiau i ysgolion a darparwyr Addysg Bellach: defnyddio pecynnau profi gartref

Bwriad y canllawiau hyn yw helpu ysgolion, lleoliadau a darparwyr AB i gynnig pecynnau prawf cartref.

Cyhoeddwyd gyntaf:
2 Medi 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
2 Medi 2020

Cynnwys

- Trosolwg
- Diben
- Dewisiadau profi arferol
- Pryd i ddarparu pecyn profi
- Cael cyflenwad newydd o becynnau profi

## Trosolwg

Mae'n hanfodol nad yw unrhyw ddisgybl, athro neu athrawes, nac aelod o staff sydd â symptomau COVID-19, neu sy'n rhannu cartref â rhywun sydd â symptomau, yn mynd i ysgol / lleoliad a'u bod yn dilyn y canllawiau hunanynysu ac yn cael prawf mewn safle profi neu gartref gan ddefnyddio'r porth **archebu ar-lein**.

Prif symptomau COVID-19 yw:

- tymheredd uchel: mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth i gyffwrdd ar eich brest neu'ch cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
- peswch newydd, parhaus: mae hyn yn golygu pesychu llawer am dros awr, neu 3 pwl o beswch neu ragor mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, mae'n bosibl iddo fod yn waeth nag arfer)
- colli neu newid yn eich gallu i arogli neu flasu: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch arogli na blasu unrhyw beth, neu fod pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer

Ym mis Gorffennaf, gwnaethom ymrwymiad y byddai pob ysgol a darparwr Addysg Bellach yn cael nifer fach o becynnau profi gartref erbyn yr hydref i ategu'r prif lwybrau mynediad at brofion. O 3 Medi ymlaen, bydd pob ysgol, lleoliad a darparwr Addysg Bellach yn cael cyflenwad cychwynnol o 10 pecyn profi gartref. O dan yr amgylchiadau eithriadol hynny pan fyddwch yn credu bod unigolyn yn wynebu rhwystrau rhag cael profion mewn mannau eraill yn unig y dylid cynnig pecynnau profi gartref iddynt.

Y ffordd orau a chyflymaf i fyfyrwyr neu staff gael mynediad at brawf yw ymweld â safle profi.

## Diben

Bwriad y canllawiau hyn yw helpu ysgolion, lleoliadau a darparwyr Addysg Bellach i gynnig pecynnau profi gartref. Mae'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i bob darpariaeth prif ffrwd, Uned Cyfeirio Disgyblion, darpariaeth arbennig, darpariaeth amgen a darparwyr Addysg Bellach. Dylid eu darllen ochr yn ochr â gweddill y canllawiau hyn.

## Dewisiadau profi arferol

Rydym yn argymell profi y rhai sydd â pheswch parhaus, twymyn, neu sydd wedi colli neu brofi newid yn eu gallu i flasu neu arogli.

Os oes gan unigolyn symptomau eraill sy'n debyg i rai annwyd, fel trwyn sy'n rhedeg, nid oes angen iddo gael ei brofi na hunanynysu.

Wrth gynghori myfyrwyr Addysg Bellach i gael prawf, neu gynghori rhieni/gofalwyr i gael profi disgybl ysgol dylech roi gwybod iddynt am y pwyntiau isod. Ni allwch ei gwneud yn ofynnol i blentyn, person ifanc nac aelod o staff gael prawf.

Drwy'r porthol **archebu ar-lein** y mae archebu prawf di-dâl ar gyfer y coronafeirws (COVID-10). Bydd hyn wedyn yn cynnig amrywiaeth o opsiynau profi i chi sydd ar gael yn eich ardal leol. Fel arfer, yr opsiynau isod a gynigir:

- Canolfan brofi - Mae'n debygol mai archebu prawf mewn canolfan brofi drwy ffenest y car fydd y ffordd gyflymaf o gael prawf. Dylech sicrhau eich bod yn gwybod lle mae'ch canolfannau profi lleol er mwyn cynghori staff, myfyrwyr a rhieni/gofalwyr.
- Pecyn profi gartref – Gall staff, rhieni/gofalwyr a myfyrwyr Addysg Bellach archebu pecyn profi gartref iddynt hwy eu hunain neu hyd at dri aelod o'u haelwyd.

Mae ffyrdd newydd o sicrhau ei bod mor gyflym a hawdd â phosibl i gael prawf yn cael eu hychwanegu'n barhaus gan wasanaeth Profi Olrhain Diogelu y GIG. Bydd canolfannau profi lleol ar sail 'galw i mewn' yn cael eu hagor mewn nifer o leoliadau cyn bo hir. Mae'r rhwydwaith hwn yn parhau i ehangu i'w gwneud yn haws i bobl heb geir gael prawf.

Pan fo'r rhain, neu opsiynau profi eraill, ar gael yn yr ardal leol, bydd y porthol yn  eu cynnig.

Os nad oes gan riant/gofalwr, aelod o staff neu fyfyriwr Addysg Bellach fynediad at gyfrifiadur neu ffôn symudol/tabled, gellir archebu pecynnau hefyd drwy ffonio 119. Gellir cysylltu â 119 hefyd am gymorth ar unrhyw adeg yn ystod y daith brofi. Mae 119 yn gallu darparu cymorth mewn hyd at 650 o ieithoedd.

Dylai unigolion hunanynysu nes eu bod yn cael canlyniad negatif neu, yn achos canlyniad positif, am y cyfnod a gynghorir gan y tîm olrhain cysylltiadau. Dylech ofyn i rieni/gofalwyr, aelodau staff a myfyrwyr Addysg Bellach roi gwybod i chi ar unwaith am ganlyniadau prawf.

## Pryd i ddarparu pecyn profi

O dan yr amgylchiadau eithriadol hynny pan fyddwch yn credu bod unigolyn yn wynebu rhwystrau rhag cael profion mewn mannau eraill yn unig y dylid cynnig pecynnau profi gartref iddynt.

Gall unrhyw un sy'n dangos symptomau'r coronafeirws (COVID-19) gael prawf, a dylent wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud mor hawdd â phosibl i gael prawf drwy ystod eang o lwybrau y gellir cael mynediad atynt yn lleol, yn gyflym ac yn gyfleus.

Mae'r llwybrau profi hyn wedi'u nodi uchod, a dylid eu defnyddio fel y sianeli arferol ar gyfer cael prawf. Os bydd plentyn neu aelod o staff yn eich lleoliad addysgol yn dioddef symptomau, dylech eu cynghori i gael eu profi drwy'r llwybrau hyn.

Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol pan nad ydych yn credu y byddai plentyn neu aelod o staff yn gallu cael eu profi drwy'r llwybrau hyn, dylech ystyried defnyddio un o'r pecynnau profi gartref a ddarperir ichi, er mwyn gwella'r siawns y bydd yr unigolyn yn cael ei brofi.

Mae pecynnau'n addas ar gyfer pobl o bob oedran dros un oed. Ni ddylai aelodau'r staff wneud y gwaith samplu, a bydd yn ofynnol i rieni/gofalwyr roi'r prawf i'r rhai o dan 11 oed. Darperir cyfarwyddiadau llawn ar sut i roi'r prawf a beth i'w wneud nesaf ym mhob pecyn.

Ni ddylid rhoi pecynnau'n uniongyrchol i blant; dim ond i oedolion dros 18 oed neu riant/gofalwr plentyn.

Dylid storio pecynnau'n ddiogel ar dymheredd amgylchol ystafell (5-22°C).

## Cael cyflenwad newydd o becynnau profi

Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyhoeddi canllawiau ar ailgyflenwi pecynnau cyn bo hir. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cyhoeddi, byddwch yn gallu ail-archebu'r pecynnau hyn. Bydd cap ar faint a pha mor aml y gellir gosod archebion, ar sail nifer y disgyblion yn eich lleoliad addysg. Byddwch yn cael rhif sefydliad unigryw (UON) yn yr e-bost am eich stoc gychwynnol o becynnau profi gartref. Bydd angen hwn arnoch i archebu cyflenwad newydd o becynnau.

**Cyhoeddwyd gyntaf**
2 Medi 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf**
2 Medi 2020